**Dinas a Sir Abertawe**

**Hysbysiad o Gyfarfod**

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod

# Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher, 4 Hydref 2017**

**Amser:** **10.30 am**

**Cynullydd:** **Y Cynghorydd Chris Holley OBE**

**Aelodaeth:**
Cynghorwyr: P Downing, P R Hood-Williams, L James, M H Jones, P Jones, J W Jones, I E Mann, B J Rowlands a/ac D W W Thomas

Aelodau Cyfetholedig:

Mynychwyr eraill:

---

**Agenda**

**Rhif y Dudalen.**

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau

**2 Cofnodion.**
Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 6 Medi 2017 fel cofnod cywir

**3 Ymatebion i ymholiadau o'r cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd.

**4 Adroddiad Blynyddol - Safonau'r Gymraeg 2016/17**
Roedd Rhian Millar, Cydlynydd Ymgynghori, ac Ann Williams, Swyddog Datblygu Polisi Cydraddoldeb, yn bresennol er mwyn briffio'r panel ar Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2016/17.

Pwyntiau allweddol a godwyd

- Daeth y safonau i rym ym mis Mawrth 2016 ac mae'r Adroddiad Blynyddol yn orfodol
- Mae llawer o gefnogaeth ar gael i staff, gan gynnwys hyfforddiant a Hyrwyddwr y Gymraeg ym mhob adran.
- Mae yna gynllun amlinellol 5 mlynedd i gynyddu nifer y

siaradwyr Cymraeg - mae asiantaethau allanol megis Menter Iaith wedi cael eu cynnwys
- Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol a Mynediad i Wasanaethau yw'r pwynt cyswllt cyntaf
- Mae cortynnau gwddf 'siarad Cymraeg' ar gael gan y staff diogelwch a gwnaed gwaith i sefydlu grwpiau
- Cafwyd cynnydd a gwelliant o ran deall yr angen i gydymffurfio a defnyddio gwasanaethau cyfieithu yn gywir

Cwestiynau a thrafodaethau dan sylw

- Roedd y panel yn hoffi'r cortynnau gwddf sy'n nodi eich bod chi'n siaradwr Cymraeg neu'n dysgu'r Gymraeg a gofynnwyd p'un a yw'r Cynghorwyr yn gwybod amdanynt.
- Gofynnodd y panel os yw'r Adroddiad Blynyddol ar gael yn y Gymraeg
- Gofynnodd y panel i newidiadau yn unig gael eu hadrodd i'r panel yn flynyddol yn hytrach na'r Adroddiad Blynyddol llawn.
- Mae Safon 33 yn mynnu bod gwasanaethau cyfieithu ar gael mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Bu trafodaeth am ystyr cyfarfod cyhoeddus.

Camau gweithredu

- Lledaenu gwybodaeth am gortynnau gwddf i'r holl gynghorwyr drwy'r Gwasanaethau Democrataidd
- Anfon dolen i fersiwn Gymraeg yr Adroddiad Blynyddol i'r panel
- Bydd Ann Williams yn egluro ystyr 'cyfarfod cyhoeddus'. Rhoi'r diweddaraf i'r panel.

**5 Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarter 1af 2017/18**

Daeth Richard Rowlands, Rheolwr Perfformiad Corfforaethol, i'r cyfarfod er mwyn briffio'r panel ar Chwarter 1 Adroddiad Monitro Perfformiad 2017/18.

Pwyntiau allweddol a godwyd

- Mae AS9 (Canran yr asesiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gwblhawyd mewn 21 diwrnod neu lai) yn bryder barhaol - sefydlir tîm newydd i fynd i'r afael â hyn.
- Cyfanswm nifer y staff sy'n gwneud yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu corfforaethol hanfodol yw 176 yn erbyn targed o 200 - mae angen ymdrech i gynyddu'r ffigur hwn.
- Mae CUST5/CUST6/SUSC2 yn dangos gostyngiad o'i gymharu â Chwarter 1 2016/17. Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar arolygon canfyddiad.
- Nododd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ei drosolwg yn yr adroddiad, fod pryderon am nifer y plant a phobl ifanc y mae angen cefnogaeth gwasanaethau plant statudol arnynt a bod nifer uwch o blant sy'n derbyn gofal, a welir ym mheth o ddata'r adroddiad. Mae Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn nodi yn yr adroddiad fod hyn yn amlygu pwysigrwydd gwasanaethau atal a dargedir yn gywir.

Cwestiynau a thrafodaethau dan sylw

- Yr angen i gynyddu nifer y staff sy'n gwneud yr hyfforddiant diogelu.
- Sut gwneir arolygon canfyddiad - pryd, pa fformat, y pwysigrwydd a roddir i gwestiynau, etc.
- Canfyddiad y cyhoedd o'r cyngor pan fydd staff yn smygu tu allan - y polisi ynghylch hyn
- Mae Panel Perfformiad Craffu y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i ganolbwyntio ar lefel y galw a brofir gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Camau gweithredu

- Ychwanegu eitem i'r cynllun gwaith i wahodd Lee Wenham a Chris Sivers i'r panel i drafod arolygon canfyddiad a'u proses.
- Cysylltu â Steve Rees i sefydlu polisi smygu i staff - gan gysylltu â chanfyddiad y cyhoedd o Gyngor Abertawe.

**6 Perfformiad Llywodraeth Leol 2016-17**

Trafodwyd crynodeb o berfformiad Llywodraeth Leol.

Pwyntiau Allweddol

- Mae gan Abertawe 6 dangosydd yn y chwarter uchaf, 3 yn y chwarter isaf, 2 yn y chwarter canol uchaf a 2 yn y chwarter

canol isaf.

<u>Cwestiynau a thrafodaethau dan sylw</u>

- Tirlenwi, tipio anghyfreithlon a gwastraff dinesig - mae'r sgorau i weld yn isel o ystyried bod yr Adran Wastraff wedi derbyn gwobr am berfformiad y flwyddyn ddiwethaf.
- Roedd y panel yn siomedig bod y mesur o ran nifer y diwrnodau a gymerir i gyflwyno cyfleusterau i bobl anabl dal i fod yn 22 o 22.

<u>Camau gweithredu</u>

- Anfon dolen i Adroddiad Perfformiad Llywodraeth Leol 2016/17 llawn i'r panel
- Gofyn i Steve Rees gynnwys adborth ar berfformiad tipio anghyfreithlon a gwastraff dinesig yn ei Ymweliad Craffu nesaf.
- Cael adborth ar berfformiad mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau Anabl.

**7 Cynllun Gwaith 2017/2018**

- Atgoffwyd y panel am gyfarfod ychwanegol ar 16 Hydref ar gyfer Adolygiad Comisiynu Diogelu'r Cyhoedd.
- Ychwanegu eitem mewn perthynas ag Arolygon Canfyddiad y Cyhoedd gyda Lee Wenhan a Chris Sivers.
- Ychwanegu eitem ychwanegol i'r Adroddiad Ailgylchu a Thirlenwi Blynyddol i esbonio'r sgorau isel yn yr Adroddiad Llywodraeth Leol.

**Cyfarfod nesaf:** Dydd Llun, 16 Hydref 2017 ar 2.00 pm

**Huw Evans**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**Dydd Mercher, 27 Medi 2017**

**Cyswllt: Bethan Hopkins - 636292**